Colin Thomas

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn Ymddiriedolwr?
Mae rôl ymddiriedolwr yn un strategol, sy'n ymwneud â goruchwylio'r rheolaeth gyffredinol, drwy sicrhau bod gan y mudiad ddiben a chyfeiriad clir. Mae ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr elusen yn ddiddyled ac yn bodloni ei hamcanion elusennol.

Yn bersonol, fy niddordeb a'm gwerthoedd mewn bywyd yw cydraddoldeb i bawb lle bynnag y bo'n bosibl. Rwyf hefyd yn mwynhau helpu a chynghori pobl yn gyffredinol.

Mae gennyf wybodaeth ddofn am gyfraith Elusennau, drwy fy mhrofiad blaenorol o fod yn ymddiriedolwr.

Rwy'n awyddus i ehangu fy ngwybodaeth yn y mudiad. Rwy'n ymrwymedig i fuddsoddi'r amser sydd ei angen i ddeall y meysydd sylweddol y mae CGGC yn ymdrin â nhw, fel y bydd gennyf fwy o wybodaeth yn yr holl feysydd i wasanaethu'r aelodau.

Rwy'n adnabyddus am fy synnwyr cyffredin, gonestrwydd, uniondeb a chwarae teg i bawb wrth wneud penderfyniadau.

Rwyf wedi edrych ar y disgrifiad o Ymddiriedolwr CGGC / Etholiad Bwrdd Ymddiriedolwyr CGGC 2022 a byddaf yn ymrwymo'n llwyr i hyn os caf fy ethol.

Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig i mi bwysleisio y byddaf yn cydymffurfio ag Erthyglau Cymdeithasu CGGC, y gyfraith elusennau, y gyfraith cwmnïau ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill.
Edrychaf ymlaen at eich cefnogaeth.